

Safonau Iaith Gymraeg Chwaraeon Cymru
Adroddiad Blynyddol – 2016/17

Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar bersonau i gydymffurfio â safonau statudol perthnasol i'r iaith Gymraeg. Daeth y safonau i gymryd lle Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Ar ôl cyfnod o ymgynghori rhwng Chwaraeon Cymru a Chomisiwn y Gymraeg, daeth Safonau newydd ar gyfer yr iaith Gymraeg i rym ar gyfer Chwaraeon Cymru ar Ionawr 25^{ain} 2017.

Y ddogfen hon yw Adroddiad Blynyddol Chwaraeon Cymru ar gyfer 2016/17 ar ein perfformiad yn erbyn Safonau newydd yr Iaith Gymraeg ar ein cyfer, ac i ddarparu manylion am y gwaith partneriaeth rydym wedi'i gynnal yn ystod y 12 mis diwethaf.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn bodloni'r dyletswyddau sydd wedi'u cyflwyno i ni ac yn cydnabod y rôl y gall chwaraeon ei chwarae mewn cefnogi datblygiad y Gymraeg yn ein cymunedau ni.

Uchafbwyntiau Allweddol – 2016/17

Yr Urdd – Rydym wedi parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn yr Urdd yn flynyddol ac eleni buddsoddwyd £294,500 gennym. Defnyddir y gyllideb i ddatblygu cyfleoedd ledled Cymru i bobl ifanc gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn buddsoddi yn y rhaglen gymunedol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar blant oedran cynradd. Mae'r meysydd ffocws yn cynnwys datblygu clybiau cymunedol, cyfleoedd i deuluoedd, cyfleoedd cystadleuol priodol a datblygu'r gweithlu.

Gemau Cymru – Rydym yn chwaraewr allweddol yng Ngemau Cymru, gan fuddsoddi £55,000 yn y digwyddiad amlchwaraeon dwyieithog a lansiwyd yn 2011 fel rhan o brosiect Gwaddol Llundain 2012 ledled Cymru. Fe'i sefydlwyd fel partneriaeth rhwng Uned Digwyddiadau Mawr (UDM) Llywodraeth Cymru, Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol a Chwaraeon Cymru, a chomisiynwyd Urdd Gobaith Cymru fel y partner darparu. I ddechrau, cwrpas y digwyddiad oedd gweithio gyda Chyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol a darparu digwyddiad amlchwaraeon ar gyfer cyfranogiad torfol. Mae Gemau Cymru yn ddigwyddiad dwyieithog nodedig ar gyfer pobl ifanc ar galendr chwaraeon Cymru ac mae'n gwella llwybr perfformiad campau Olympaidd, Cymanwlad a Pharalympaidd. Mae'n cynnig cyfle i athletwyr ifanc talentog gystadlu mewn digwyddiad amlchwaraeon uchel ei broffil gan brofi amgylchedd pentref athletwyr ar yr un pryd.

#Amdani – Mewn partneriaeth â Chomisiwn y Gymraeg, lansiwyd #amdani gennym, pecyn ymarferol ar gyfer clybiau a chymdeithasau chwaraeon, i ddatblygu dull dwyieithog o

ddarparu gweithgareddau chwaraeon yng Nghymru. Roedd y pecyn yn seiliedig ar ymchwil ac adborth gan gyrff chwaraeon ledled Cymru a chafodd ei lansio yn Sioe Frenhinol Cymru yn 2016. Roedd cynrychiolwyr o Chwaraeon Cymru yn y digwyddiad, a oedd yn cynnwys sesiwn Holi ac Ateb gydag aelodau o URC, gan gynnwys y Cadeirydd Gareth Davies. Mae gwybodaeth am #amdani wedi'i gosod ar wefan Comisiwn y Gymraeg, gyda dolenni i ac o wefannau Chwaraeon Cymru ac Atebion Clwb.

Archwiliad Arweinyddiaeth Cymru 2016 – Mae archwiliad 2016 yn darparu gwybodaeth ansoddol am amrywiaeth yr Uwch Dimau Arwain a'r Byrddau yn y 43 o Gyrff Rheoli Cenedlaethol a gyllidir gan Chwaraeon Cymru. O blith y 316 o Aelodau Bwrdd, roedd 22% (72) yn siaradwyr Cymraeg.

Cyllid i Chwaraeon Cymunedol – O ystyried y cyllid uchod ar gyfer yr Urdd a Gemau Cymru, yn ogystal â chyllid sydd wedi'i ddyfarnu drwy ein system grantiau (Y Gist Gymunedol a Grantiau Datblygu), yn ystod 2016-17 buddsoddwyd £730,000 gennym mewn prosiectau a gafodd effaith bositif ar ddatblygiad yr Iaith Gymraeg drwy chwaraeon.

Cyfrifoldeb am yr Iaith Gymraeg - Mae cyfrifoldeb am yr Iaith Gymraeg wedi cael ei gynnwys yn nisgrifiadau swyddi aelodau'r tîm cyfathrebu, gan sicrhau dull mwy strategol o gyflawni Safonau'r Iaith Gymraeg. Hefyd mae arweinydd strategol yr Iaith Gymraeg yn aelod o Grŵp Cydraddoldeb Chwaraeon Cymru, gan sicrhau bod yr Iaith Gymraeg yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'n ffrydiau cydraddoldeb eraill.

Hefyd mae Uwch Swyddog yn y tîm Chwaraeon Cymunedol yn arwain ar ddatblygu'r Iaith Gymraeg gyda'n partneriaid allweddol, yn enwedig y gyrff rheoli chwaraeon.

Cydymffurfio â'r Safonau

At bwrpas yr adroddiad hwn, byddwn yn darparu crynodeb o'r camau gweithredu sydd wedi'u rhoi ar waith i gadw at 'Ddosbarth o Safonau', fel Darparu Gwasanaethau, Lluo Polisiau, Gweithredol ac ati. Nid yw'r adroddiad yn hollgynhwysfawr mewn unrhyw ffordd ac nid yw'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf amdanom yn cadw at bob Safon sy'n berthnasol i ni, ond mae'n ceisio rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac i'r Comisiynydd am y camau gweithredu sydd wedi'u rhoi ar waith i gydymffurfio â'r Safonau.

Darparu Gwasanaethau:

- Mae'r holl gyfathrebu allanol, yn gyhoeddiadau, hysbysebion, deunyddiau hyrwyddo ac ati, sy'n cael eu harddangos neu eu dosbarthu i'r cyhoedd yn gwbl ddwyieithog ac nid yw'r Iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

- Rydym wedi ychwanegu gwybodaeth at ein gwefan, a'n gohebiaeth gorfforaethol os yw hynny'n briodol, yn nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rydym wedi datblygu proses fewnol ar gyfer derbyn galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg. Mae'r broses hon a'r rhestr o'r siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad, ynghyd â'u rhifau estyniad a'u meysydd cyfrifoldeb, wedi'u gosod ar dudalen 'Iaith Gymraeg' ein mewnwrwyd gorfforaethol.
- Mae ein gwasanaeth ffôn awtomatig yn gwbl ddwyieithog ac mae ein ffonau wedi cael eu rhaglennu i ddangos a yw'r rhai sy'n galw'n allanol wedi dewis opsiynau Cymraeg neu Saesneg.
- Mae pob gwahoddiad i gyfarfodydd / digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd yn gwbl ddwyieithog.
- Mae pob dogfen sydd wedi'i chynhyrchu i fod yn allanol, gan gynnwys cynlluniau busnes corfforaethol, cyfrifol blynyddol ac ati, yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac nid yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Mae unrhyw ffurflenni rydym yn eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac mae ein System Rheoli Grantiau Ar-lein yn galluogi i ymgeiswyr am grantiau nid yn unig wneud cais drwy gyfrwng y Gymraeg ond hefyd rheoli'r broses gyfan (gan gynnwys yr ohebiaeth) yn yr iaith o'u dewis.
- Mae ein gwefan gorfforaethol a'r micro-safleoedd yn gwbl ddwyieithog ac rydym yn defnyddio system 'togl' iaith i alluogi defnyddwyr i gyfnewid rhwng edrych ar dudalennau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda phob tudalen ar y wefan â fersiwn Cymraeg a Saesneg. Hefyd mae gennym URL's Cymraeg.
- Mae pob ap a gwasanaeth digidol rydym yn eu datblygu'n gwbl ddwyieithog, mae gennym ryngwynebau Cymraeg ac mae'r fersiynau Cymraeg yn gwbl swyddogaethol.
- Ar gyfryngau cymdeithasol nid ydym yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol mewn unrhyw ffordd ac os bydd aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â ni ar gyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg, rydym yn cysylltu ag ef neu hi yn yr iaith o'i ddewis.
- Mae'r holl arwyddion yn ein Canolfannau Cenedlaethol ac yn ein digwyddiadau'n ddwyieithog. Roeddem yn arfer datblygu arwyddion gyda'r testun Saesneg yn gyntaf ond, ers Ionawr 25^{ain} 2017, mae unrhyw arwyddion newydd yn cael eu cynhyrchu gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei darllen yn gyntaf.
- Rydym wedi datblygu proses ar gyfer y staff i gyd o ran sut i ddelio ag ymholiadau Cymraeg drwy gyfrwng ein system dros y ffôn a manylir ar y broses hon ar dudalennau Cymraeg ein mewnwrwyd gorfforaethol.

- Cyhoeddir pob neges drwy ein system uchelseinydd yn ddwyieithog gan gyhoeddi yn y Gymraeg yn gyntaf. Fodd bynnag, cyhoeddir negeseuon adweithiol (gan gynnwys rhai brys) yn Saesneg yn unig os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael.

Llunio Polisiâu:

- Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o'n proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n gorfod cael ei chwblhau gyda phob prosiect / strategaeth / polisi newydd rydym yn eu datblygu. Felly, ystyrir effaith unrhyw ddarn o waith ar yr iaith Gymraeg ochr yn ochr â ffrydiau cydraddoldeb eraill, gan gynnwys DLIE, LHDT ac amddifadedd cymdeithasol.
- Rydym wedi llunio polisi ar gyfer dyfarnu grantiau ac mae'r polisi hwn ar gael ar ein gwefan ni -
http://www.sport.wales/media/1871787/sport_wales_funding_policy.pdf
- Mae'r polisi cyllid uchod yn rhoi manylion am y Safonau perthnasol i ni, manylion am sut gall ymgeiswyr wneud cais a rheoli eu proses grantiau gyfan yn yr iaith o'u dewis, manylion am y math o wybodaeth rydym yn gofyn amdani ganddynt yn gysylltiedig â'u heffaith ar yr iaith Gymraeg a'r math o fonitro mae Chwaraeon Cymru yn ei wneud. Lluniwyd y polisi mewn partneriaeth â'n tîm Grantiau a Chyllid.

Gweithredol:

- Rydym wedi llunio polisi ar gyfer hybu'r iaith Gymraeg yn fewnol ac mae hwn yn cael ei rannu ar ein mewnwyd gorfforaethol a'i drafod gyda'r staff gan y Pennaeth Cyfathrebu fel rhan o'r broses o'u croesawu i'w swydd.
- Fel rhan o ddiweddariad blynyddol i fanylion y cyflogeion, gofynnwyd i'r staff i gyd a oeddent yn dymuno derbyn yr ohebiaeth ysgrifenedig am eu cyflogaeth yn y Gymraeg. Ni ofynnodd unrhyw aelod o staff am hyn.
- Mae ein llawlyfr staff sy'n manylu ar ein polisiâu corfforaethol sy'n rhoi sylw i bopeth o iechyd a diogelwch i reoli perfformiad ac absenoldeb a manteision y gweithle yn ddwyieithog.
- Mae'r staff i gyd yn ymwybodol o'r cyfle i gyflwyno cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg ac y bydd y broses gwynion gyfan yn cael ei chwblhau yn yr iaith o'u dewis.
- Mae meddalwedd gramadeg a sillafu Cymraeg ar gael i'r staff i gyd gan ein hadran TGCh ac mae'r staff i gyd wedi cael gwybod am hyn.
- Mae gan ein mewnwyd gorfforaethol hafan Gymraeg sy'n gwbl weithredol a hefyd mae gennym dudalen benodol ar ein mewnwyd ar gyfer hybu'r Gymraeg yn y sefydliad. Mae'n cynnwys dolenni drwodd at ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol a hefyd at ein polisi mewnol, at frawddegau Cymraeg defnyddiol a hyd yn oed at

glipiau sain o gyfarchion Cymraeg i helpu'r staff i ddysgu. Rhoddwyd gwybod am yr dudalen i'r holl staff wrth ei lansio ac mae'n cael ei chrybwyll gan y Pennaeth Cyfathrebu hefyd fel rhan o'r broses o groesawu staff i'w swyddi.

- Mae'r staff i gyd yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant Cymraeg yn ystod eu horiau gwaith, os mai felly maent yn dewis dysgu. Yn ystod 2016/17, cwblhaodd 42 aelod o staff yr hyfforddiant Cymraeg gyda'r manylion canlynol o ran lefelau cymhwysedd: Blasu – 15, Mynediad – 19, Sylfaen – 1, Canolraddol – 2, Uwch – 2, Medrus – 3.
- Mae'r staff i gyd yn gallu trafod eu hanghenion hyfforddi Cymraeg gyda'r adran Adnoddau Dynol, a fydd yn trefnu hyfforddiant addas os yw hynny'n bosib.
- Rhoddir cyhoeddusrwydd i'n Safonau ar gyfer yr Iaith Gymraeg a chynyddir ymwybyddiaeth pobl o'r iaith Gymraeg gan y Pennaeth Cyfathrebu yn ystod y broses o groesawu staff i'w swyddi.
- Rheolir yr holl lofnodion e-bost yn fewnol gan ein hadran TGCh ac maent yn ddwyieithog.
- Mae ein ffurflen recriwtio staff fewnol, a oedd eisoes yn cynnwys manylion am sgiliau yn y Gymraeg, wedi cael ei diweddarau i gyfateb i'r derminoleg y cyfeirir ati yn y Safonau (Safon 132).
- Rhwng Ionawr 25^{ain} 2017 a diwedd y flwyddyn ariannol, hysbysebwyd 2 swydd ac roedd y ddwy'n nodi bod y Gymraeg yn 'ddymunol'.
- Mae ein swyddi ni i gyd yn ddwyieithog ac mae'r holl ddeunyddiau cefnogi ar gyfer swyddi gwag, fel ffurflenni cais a disgrifiadau swyddi, yn ddwyieithog.
- Pan mae ymgeisydd yn gwneud cais am swydd wag yn y Gymraeg, cwblheir y broses recriwtio lawn yn yr iaith o'i ddewis.
- Ers Ionawr 25^{ain} 2017, mae'r holl arwyddion newydd yn y gweithle wedi cael eu cynhyrchu fel bod y testun Cymraeg wedi'i osod fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Mae ein harwyddion wedi bod yn ddwyieithog erioed.
- Cyhoeddir pob neges ragweithiol / wedi'i chynllunio drwy ein system uchelseinydd fewnol yn y ddwy Ganolfan Genedlaethol yn ddwyieithog. Fodd bynnag, cyhoeddir negeseuon adweithiol neu frys yn Saesneg yn unig os nad oes staff sy'n siarad Cymraeg wrth law.

Cadw cofnodion:

- Rydym yn cadw cofnod bob blwyddyn o nifer y cwynion rydym yn eu derbyn, os o gwbl, yn gysylltiedig â'r iaith Gymraeg ac o ran sut rydym yn cadw at Safonau'r Iaith Gymraeg. Yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17, cawsom 1 gŵyn am gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol gan un o'n Canolfannau Cenedlaethol, Plas Menai. Roedd y gŵyn yn ymwneud â diffyg cyfartaledd yn y negeseuon Cymraeg a Saesneg ar

gyfryngau cymdeithasol. Ymchwiliwyd i'r gŵyn, ymatebwyd iddi ac mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r prosesau er mwyn sicrhau nad yw'r mater yn codi eto.

- Mae dogfen sy'n manylu ar y camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisïau wedi cael ei chwblhau ac mae'n cael ei chadw mewn ffeil.
- Yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17, cwblhaodd 42 aelod o staff yr hyfforddiant Cymraeg, gyda'r manylion canlynol o ran lefelau cymhwysedd: Blasu – 15, Mynediad – 19, Sylfaen – 1, Canolraddol – 2, Uwch – 2, Medrus – 3.
- Rydym yn cadw cofnod o nifer y siaradwyr Cymraeg yn Chwaraeon Cymru, eu math o contract a lefel eu sgil. Yn ystod 2016/17, roedd fel a ganlyn:
 - 30 aelod o staff llawn amser sy'n siaradwyr Cymraeg
 - 2 aelod o staff rhan amser sy'n siaradwyr Cymraeg
 - 2 Aelod Bwrdd sy'n siaradwyr Cymraeg
 - 37 o staff achlysurol / tymhorol sy'n siaradwyr Cymraeg

Ategol – Darparu Gwasanaethau / Llunio Polisïau / Gweithredol / Cadw Cofnodion:

- Mae ein 'Cynllun Iaith Gymraeg' (http://sport.wales/media/1890653/welsh_language_corporate_doc_english.pdf) yn cynnwys ein holl safonau ac mae ar gael ar ein gwefan a gellir cael copïau ohono o bob un o'n swyddfeydd.
- Mae manylion am sut byddem yn rheoli cwyn sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yn y Cynllun Iaith Gymraeg sy'n cael ei grybwyll uchod.
- O gael cais am hynny, byddem yn fwy na pharod i roi unrhyw wybodaeth am ein dull o gadw at unrhyw rai o'r safonau y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â hwy.
- Mae unrhyw gofnodion sy'n cael eu cadw mewn perthynas â'n safonau cadw cofnodion ar gael i Gomisiwn y Gymraeg ar gais.